**Y PWYLLGOR ARCHWILIO**

**AC-08-02(cof)**

**COFNODION**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyddiad:** | 21 Tachwedd 2002 | |
| **Amser:** | 1.30 pm | |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol Cymru,<br>Bae Caerdydd | |
| **Yn bresennol** | **Aelodau** | |
| | Dafydd Wigley (Cadeirydd) | Caernarfon |
| | Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| | Alun Cairns | Gorllewin De Cymru |
| | Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| | Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| | Alison Halford | Delyn |
| | Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| | Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| | **Tystion** | |
| | Syr Jon Shortridge | Yr Ysgrifennydd Parhaol |

| | |
|---|---|
| Nigel Finlayson | Pennaeth Yr Is-adran Systemau Busnes a Gwybodaeth |
| Bryan Mitchell | Pennaeth y Grwp, y Gyfarwyddiaeth Systemau Busnes a Gwybodaeth |
| David Richards | Prif Swyddog Cyllid |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Sir John Bourn | Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Lew Hughes | Dirprwy Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Gillian Body | Y Swyddfa Archwilio Genedlaethol |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfio y Cynulliad |

| | |
|---|---|
| Claire Bennett | Clerc y Pwyllgor |
| Lara Date | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**<u>13.30 – 13.45pm</u>**

**Eitem 1**

**Cyflwyniadau, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant.**

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod. Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Janice Gregory AC a oedd yn methu bod yn bresennol oherwydd salwch.

**<u>13.30 – 14.45 pm</u>**

**Eitem 2**

**Sesiwn cymryd tystiolaeth - Osiris: Y contract Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**

1. Cymerodd y pwyllgor dystiolaeth gan yr Ysgrifennydd Parhaol, Syr Jon Shortridge, a swyddogion eraill mewn perthynas â'r adroddiad gan y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Osiris: Y contract Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru

2.2 Cytunodd y pwyllgor i gael egwyl o 14.55 hyd 15.05pm

**15.05 – 16.00 pm**

**Eitem 2 (Parhad)**

**Sesiwn cymryd tystiolaeth - Osiris: Y contract Menter Cyllid Preifat (PFI) ar gyfer technoleg gwybodaeth yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru**

2.3 Ceir trawsgript gair-am-air o'r eitem hon yn Atodiad A y cofnodion.

**Pwyntiau Gweithredu**

Cytunwyd y byddai'r pwyllgor yn cael nodyn oddi wrth yr Ysgrifennydd Parhaol yn trafod y pwyntiau canlynol:-

- Pa un a ofynnwyd i ymgynghorwyr neu gyrff proffesiynol eraill am gyngor wrth benderfynu sut i ddyfarnu contract gwreiddiol Osiris:
- cadarnhau'r elfennau a gafodd eu tynnu o'r contract ar ôl trafod y telerau eto. Roedd y drafodaeth yn ymdrin â'r cyfeiriad ym mharagraff 3.11 o'r Adroddiad i Brif Swyddfa SBS a chostau bonws y staff;
- nodyn cyfrinachol ar faint elw SBS sy'n rhoi mwy o fanylion, cyn belled â phosibl, ar ôl ymgynghori â Siemens;
- egluro dyddiad y penderfyniad a wnaed gan Is-bwyllgor TG Pwyllgor y Ty, ar ddod â gwasanaeth desg gymorth yr Aelodau i ben; a'r dyddiad y daeth i ben;
- manylion pellach sy'n ystyried yr angen am gymharydd sector cyhoeddus wrth asesu'r contract gwreiddiol. Os na chafodd cymharydd ei gymeradwyo o dan y canllawiau presennol, yna byddai nodyn yn cael ei ddarparu yn nodi hyn, gan roi manylion unrhyw arfarniad confensiynol o fuddsoddiadau a gynhaliwyd. Pe byddai'n briodol, byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi cyngor i'r pwyllgor ar y pwynt hwn.

**16.00 – 16.20 pm**

**Eitem 3**

**Papurau i'w nodi**

1. Atgoffodd y Cadeirydd y pwyllgor y gallai ysgrifennu at Lywodraeth y Cynulliad eto i gynnig mwy o awgrymiadau pe byddai'n anfodlon ag ymatebion y Cabinet. Gallai

Archwilydd Cyffredinol Cymru fonitro'r broses o roi argymhellion y pwyllgor ar waith, ond yn y pen draw, y Llywodraeth oedd yn gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion polisi.

**AC 08-02(p2) - Asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Gyllid GIG Cymru 2002**

**AC 08-02(p3) - Ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor ar Gyllid GIG Cymru 2002**

1. Ystyriwyd bod ymateb y Cabinet yn rhy niwlog ar nifer o bwyntiau.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Byddai Archwilydd Cyffredinol Cymru yn rhoi ymateb i'r pwyllgor i bapur y Cabinet, gan nodi ei fod yn gyffredinol ei naws a'i fod wedi gofyn iddo sicrhau bod y canlyniadau yn y dyfodol yn gyson ag argymhellion y pwyllgor.
- Byddai'r Archwilydd yn cadw golwg ar y sefyllfa ac yn hysbysu'r pwyllgor o'r hyn a wnaed yn ei adroddiad blynyddol nesaf ar Gyllid GIG Cymru ar gyfer 2003.

**AC 08-02(p4) - Asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Reoli Ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru**

**AC 08-02(p5) - Ymateb y Cabinet i Adroddiad y Pwyllgor ar Reoli Ystâd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru**

1. Bu'r pwyllgor yn trafod sylwadau'r Cabinet ar gyllidebau blynyddol, a statws y dyraniadau clustnodedig.

**Pwynt Gweithredu**

- O ran ei argymhelliad ar wneud y cynlluniau cyllidebau cyfalaf 3 blynedd yn fwy cydnaws â'i gilydd, cytunodd y pwyllgor mai'r Archwilydd a ddylai fonitro hyn er mwyn gweld beth fyddai'r canlyniad. Byddai wedyn yn cyflwyno adroddiad i'r pwyllgor ymhen blwyddyn, gan argymell cymryd camau pellach pe byddai'n briodol.

**AC 08-02(p6) - Asesiad Archwilydd Cyffredinol Cymru o ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor Archwilio ar Ddiogelu Dyfodol Bae Caerdydd**

**AC 08-02(p7) - Ymateb y Cabinet i adroddiad y Pwyllgor ar Ddiogelu Dyfodol Bae Caerdydd**

1. Roedd y pwyllgor yn cytuno na ddylid cymryd camau pellach yn dilyn yr ymateb hwn ond

roedd gwaith yn mynd rhagddo ar y mater a byddai'r Archwilydd yn parhau i arfer yr hawl, a gafwyd drwy ymdrech, i weld cofnodion awdurdod yr harbwr.

**16.20 – 16.30pm**

**Eitem 4**

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf ac unrhyw fater arall**

**Papur: AC-07-02(cof)**

1. Ystyriwyd cofnodion y cyfarfod diwethaf. O ran gwaredu Ysbyty Canolbarth Cymru, byddai'r Archwilydd Cyffredinol yn rhoi adroddiad ar ganlyniadau'r ymchwil pellach ar rai eitemau atodol yn ystod cyfarfod y pwyllgor ym mis Ionawr. Er mwyn caniatáu digon o amser i'r pwyllgor drafod materion eraill, ac o gofio mai pwerau cyfyngedig sydd ganddo, byddai angen wedyn dod â'r eitem hon i ben a pharatoi adroddiad drafft i'w ystyried yng nghyfarfod y pwyllgor ym mis Chwefror.

**Pwyntiau Gweithredu**

Dyma'r eitemau y bu'r Archwilydd Cyffredinol yn ymchwilio iddynt i'w hystyried cyn paratoi'r adroddiad drafft:

- Pa un a fyddai modd cael mwy o wybodaeth gan gyn swyddog, y cyfeiriwyd ato yn ystod y sesiwn casglu tystiolaeth
- Pa un a roddwyd holl fanylion y newidiadau i'r statws cynllunio i bob carfan berthnasol, ac i ba raddau yr ystyriwyd yr effaith a gafodd y newidiadau hynny, yn benodol ond nid yn unig mewn perthynas â dewisiadau posibl o ran ennill yn ôl
- Y ffordd yr ymdriniwyd â neges drwy'r ffacs dyddiedig 17 Mai 1999, a anfonwyd at Swyddfa Ysgrifenydd Gwladol Cymru
- Honiadau ysgrifenedig a wnaed gan aelodau'r cyhoedd fod y prynwr yn derbyn taliadau ar ffurf rhent o bryd i'w gilydd, ar ôl gwerthu'r ysbyty ond pan oedd cleifion yn parhau i fod yno.

1. Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod diwethaf.
2. Diolchodd y Cadeirydd i Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i dîm am eu gwaith ar adroddiad Osiris.
3. Nodwyd y bydd cyfarfod nesaf y pwyllgor a gynhelir ar ddydd Iau 19 Rhagfyr yn dechrau am 9.00am.

3. Daeth y cyfarfod i ben am 16.30pm.

Cliciwch fan hyn ar gyfer record y cyfarfod